Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 06.08.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Symud i Lefel Rhybudd 0 i'w gwblhau ar 7 Awst 2021

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd y symud i gyfyngiadau Lefel Rhybudd 0 i'w gwblhau ar 7 Awst 2021. Ar Lefel Rhybudd 0, bydd yr holl gyfyngiadau ar gyfarfod ag eraill yn cael eu codi a bydd modd i bob busnes agor. Er hynny, bydd rhai mesurau diogelwch pwysig yn parhau i fod ar waith i roi'r hyder i bawb fwynhau'r haf eleni, mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaid i bawb sy'n gyfrifol am leoliadau sydd ar agor i'r cyhoedd a gweithleoedd gynnal asesiad risg Covid.

- Bydd gorchuddion wyneb yn ofynnol o hyd yn y rhan fwyaf o fannau cyhoeddus o dan do yng Nghymru.

- Rhaid i bawb barhau i hunan ynysu am 10 diwrnod os oes ganddynt symptomau Covid-19 neu os ydynt yn cael canlyniad prawf positif.

Mae canllawiau Lefel Rhybudd 0 ar gael yma:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0

# COVID-19: Pwyntiau allweddol i fusnesau yn Lefel Rhybudd 0

- Asesiadau risg

Rhaid i bawb sy'n gyfrifol am leoliadau sydd ar agor i'r cyhoedd a gweithleoedd gynnal asesiad risg Covid-19, a pharhau i gymryd mesurau rhesymol i leihau unrhyw gysylltiad â choronafeirws, gyda ffocws ar ymbellhau cymdeithasol, hylendid ac awyru. Mae'r canllawiau ar baratoi eich asesiad risg yma:

https://llyw.cymru/asesiad-risg-covid-19-eiddo-cyhoeddus-gweithleoedd

- Gwisgo gorchuddion wyneb

Rhaid i oedolion a phlant dros 12 oed barhau i wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, gan gynnwys ar drafnidiaeth gyhoeddus, mewn siopau ac mewn lleoliadau gofal iechyd. Bydd pobl na all eu gwisgo yn parhau i gael eu heithrio o'r gofyniad hwn. Ni fydd angen gorchuddion wyneb mewn lleoliadau lletygarwch fel bwytai, tafarndai, caffis neu glybiau nos, ond fe'i anogir i'w gwisgo, yn enwedig ar adegau prysur. Mae'r canllawiau ar gyfrifoldebau mewn perthynas â gwisgo gorchuddion wyneb yma:

https://llyw.cymru/gorchuddion-wyneb-canllawiau-ar-y-mesurau-iw-cymryd-gan-gyflogwyr-rheolwyr-mangreoedd

Mae'r canllawiau Lefel Rhybudd 0 i gyflogwyr, busnesau a sefydliadau ar gael yma:

https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-0-canllawiau-i-gyflogwyr-busnesau-sefydliadau

- Mae asedau digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheoliadau yng Nghymru o 7 Awst 2021 ar gael o:

https://bit.ly/AsedauLefel0Assets

## COVID-19: Newid y rheolau hunan ynysu ar gyfer oedolion sydd wedi'u brechu'n llawn

Rhaid i bawb barhau i hunan ynysu am 10 diwrnod os oes ganddynt symptomau Covid-19 neu os ydynt yn cael canlyniad prawf positif. Serch hynny, o 7 Awst 2021, ni fydd yn rhaid i oedolion sydd wedi cael eu brechu'n llawn hunan ynysu mwyach os cânt eu nodi fel cysylltiadau agos â rhywun sydd â'r coronafeirws. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/newid-y-rheolau-hunanynysu-ar-gyfer-oedolion-sydd-wediu-brechun-llawn

- Codi'r taliad cymorth hunan ynysu i £750

Yn dilyn y newidiadau yma i'r polisi hunan ynysu, bydd taliad cymorth hunan ynysu Llywodraeth Cymru yn cael ei godi o £500 i £750 i gefnogi pobl na allant weithio gartref sy'n cael cyfarwyddyd i hunan ynysu gan wasanaeth Profi Olrhain Diogelu (TTP) GIG Cymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/codir-taliad-cymorth-hunanynysu-i-750

Mae gwybodaeth pellach am y cymorth ariannol hyn ar gael yma:

https://llyw.cymru/cynllun-cymorth-hunanynysu

## COVID-19: Profi

Mae gan Llywodraeth Cymru gyngor ar gael, a Phrofion Llif Unffordd (LFTs) am ddim i fusnesau, sydd â mwy na 10 o weithwyr nad ydynt yn gallu gweithio gartref. sy'n dymuno sefydlu trefn brofi yn eu gweithleoedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael o:

https://llyw.cymru/fframwaith-profi-covid-19-yn-y-gweithle-html

Gallwch chi a'ch staff hefyd gasglu citiau prawf am ddim o nifer o leoliadau ledled Gwynedd:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Coronafeirws/Prawf-Covid-19.aspx

Am wybodaeth gyffredinol ar brofi ac olrhain, ewch i:

https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws

# COVID-19: Brechu

Mae pecyn hyrwyddo ar gael sy'n dangos sut gall cyflogwyr helpu i gefnogi eu staff a hyrwyddo'r rhaglen frechu coronafeirws (COVID-19), ewch i:

https://llyw.cymru/brechiad-covid-19-pecyn-hyrwyddo-i-gyflogwyr

Cynhelir clinigau brechu yr wythnos yma ym Mhorthmadog a Chaernarfon.

- PORTHMADOG
  Ysbyty Alltwen, LL49 9AQ: 8 Awst 2021 8:30am-6:00pm
  Sesiwn brechu Pfizer – dim angen apwyntiad.

- CAERNARFON
  Canolfan Denis Arfon, Caernarfon. LL55 1DU: 8 Awst 2021 8:30am-3:00pm
  Sesiwn brechu AstraZeneca i bobl 40+ – gwnewch apwyntiad trwy fynd i:
  https://bipbc.gig.cymru/covid-19/brechlyn-covid-19/brechiad-covid-19-trefnu-apwyntiad-ar-lein/

# COVID-19: Adnoddau cyffredinol

Am y cyngor a'r wybodaeth ddiweddaraf, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/diogelu-cymru-yn-y-gweithle
https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

Dylai busnesau lletygarwch a thwristiaeth hefyd fynd i:

https://llyw.cymru/cadw-cofnodion-ynghylch-staff-cwsmeriaid-ac-ymwelwyr-profi-olrhain-diogelu

https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru